



**Caring Together
Western Bay**
Health and Social Care Programme
**Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin**
Rhaglenn Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

23 Mawrth, 2017

10.00 – 12.00

Ystafell Gynadledda'r Llawr Cyntaf, Y Ganolfan, Baglan

Cofnodion

Cynrychiolwyr

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Rob Stewart (Cadeirydd)	Dinas a Sir Abertawe	RS
Yr Athro Andrew Davies (Is- gadeirydd)	BI PABM	AD
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Maggie Berry	BI PABM	MB
Y Cynghorydd Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HDa
Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Steve Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	PS
Nick Jarman	CBS Castell-nedd Port Talbot	N.J
Phil Roberts	Dinas a Sir Abertawe	PhR
Y Cynghorydd Jane Harris	Dinas a Sir Abertawe	JH
Y Cynghorydd Mark Child	Dinas a Sir Abertawe	MC
Dave Howes	Dinas a Sir Abertawe	DH
Linda Jagers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio/Y Trydydd Sector	ET
Rosita Wilkins	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/ Dinasyddion	RW
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru/Y Trydydd Sector	CT
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Sara Harvey	Bae'r Gorllewin	SH
Louise Fraser-Cole	Bae'r Gorllewin	LFC

Yn bresennol

Gareth Davies (Eitem 5 ar yr Agenda)	Prifysgol Abertawe	GD
Sian Roderick (Eitem 5 ar yr Agenda)	Prifysgol Abertawe	SR
Hilary Dover (Eitem 8 ar yr Agenda)	BI PABM	HDo

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Ali Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot	AT

Y Cynghorydd John Rogers	CBS Castell-nedd Port Talbot	JR
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
Y Cynghorydd Hayley Townsend	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HT
Y Cynghorydd Christine Richards	Dinas a Sir Abertawe	CR
Y Cynghorydd Jane Harris	Dinas a Sir Abertawe	JH
Alex Howells	BI PABM	AH
Gaynor Richards	CGG CNPT/Y Trydydd Sector	GR

Cyf	Eitem	Cam Gweithredu
1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod. Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod	
2	Datganiadau o Fuddiant Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
3	Cofnodion	
3.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir	
4	Materion yn codi a chofnod gweithredu	
4.1	Mae Panel Rhanbarthol y Dinasyddion yn nodi dirprwy ar gyfer RW, fel y cytunwyd yn flaenorol, a chroesawyd hyn gan RW.	
4.2	Mae Fforwm yr Undebau Llafur am enwebu cynrychiolydd yn ogystal â dirprwy i fod yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	
4.3	Caiff Adroddiad yr IFSS ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chanlyniad yr adolygiad.	
4.4	Mae dogfen Egwyddorion y Fframwaith Atal yn cael ei gyrru yn ei blaen drwy'r Cabinetau a'r Bwrdd Iechyd	
4.5	Darparwyd diweddariad gan PPI	
4.6	Mae gwaith i lunio crynodeb o ddarpariaeth cartrefi gofal, dadansoddiad o wariant a darpariaeth nyrsio'n mynd rhagddo a chaiff ei rannu â'r BPRh pan fydd ar gael.	
4.7	Mae gan BI PABM grŵp sefydledig ar gyfer llais PPI sef leuenctid PABM sydd wedi cwrdd dwywaith ac sy'n gweithio ar ei flaenoriaethau ar hyn o bryd. Y grŵp hwn fydd y cyswllt â BGn	
4.8	Adroddiad Gwerthuso PDG/CALI ar yr agenda	
4.9	Bydd AD yn ysgrifennu at CBS Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch WCCIS	
5	Gwerthusiad Ffurfiannol Mentrau Cymunedol Bae'r Gorllewin (Cydlynu Ardaloedd Lleol/Cydlynu Cymunedau Lleol)	

5.1 Croesawodd y cadeirydd GD ac SR i gyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad [gweler y cyflwyniad a'r adroddiad gwerthuso a



LAC Evaluation
23.3.17.ppt

ddosbarthwyd gyda'r papurau cyfarfod isod]

- 5.2 Rhannodd GD uchafbwyntiau'r gwerthusiad a rhoddodd y cefndir i PDG/CALI yn fyr, y mae mwy o fanylion amdanynt ar gael yn yr Adroddiad Gwerthuso.
- 5.3 Esboniodd GD fod y canfyddiadau'n dangos cymhlethdodau'r hyn y mae cydlynwyr yn gweithio gydag ef yn ogystal â'r manteision ariannol a ddangoswyd, er y tynnwyd sylw at y ffaith fod pob achos yn unigryw.
- 5.4 Pwysleisiodd GD fod y ffocws ar unigolion a darparu gwell bywyd i'r unigolyn hwnnw yn ogystal â diffinio canlyniadau.
- 5.5 Drwy nodi themâu, roedd yn bosib nodi senarios ac felly, ddarparu gwell dealltwriaeth o angen tebygol yr unigolyn a darparu gwell canlyniadau.
- 5.6 Mae'r gwerthusiad wedi profi bod PDG/CALI yn datblygu rhwydweithiau rhwng adnoddau ac unigolion, felly'n adeiladu cymunedau, felly'n datblygu cadernid.
- 5.7 Disgrifiwyd rôl y cydlynwyr yn y cyflwyniad fel y ddolen gyswllt rhwng pawb dan sylw. Tynnodd sylw hefyd at ddatblygu person sydd wedi derbyn cymorth i fod yn berson sy'n gallu rhoi cymorth, gan wneud hwn yn brosiect hunangynhaliol.
- 5.8 Mae cyfanswm o 29 argymhelliad, a gafwyd o'r canfyddiadau allweddol.
- 5.9 Y camau nesaf a argymhellir yw cefnogi gwaith PDG a CALI, hysbysu rhanddeiliaid allweddol o gynnydd, tynnu sylw at werth ychwanegol yn ogystal â chyfeirio arfer gorau a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg yn y mentrau hyn. Dylid mynd ati ar y cyd i gynllunio parhad i'r gwerthuso, a'i roi ar waith.
- 5.10 Gwahoddodd GD ac SR gwestiynau a sylwadau gan y bwrdd:
- 5.10.1 Mynegodd MC ddymuniad i weld y gwaith hwn yn cael ei ehangu ar draws y rhanbarth. Argymhellodd MC hefyd y dylai aelodau'r bwrdd, lle bynnag y bo modd, geisio siarad â'r rhai sy'n ymwneud â'r peth gan fod ganddynt yr wybodaeth a'r profiad ac felly maent yn y sefyllfa orau i gynghori ar y ffordd orau i symud ymlaen. Dylid recriwtio cydlynwyr PDG fesul cam oherwydd cymhlethdod y rôl.
- 5.10.2 Hysbysodd CT y bwrdd ei fod yn hyrwyddo sesiynau hysbysu ar draws y rhanbarth; mae ymatebion a chynnwys wedi bod yn 'wych' o ran y berthynas â PDG/CALI.
- 5.10.3 Teimlai AD na ddylai'r argymhellion gael eu cyfeirio at ALI yn unig ond y dylid cynnwys y BI hefyd ac y dylai hyn fod yn gyson â'r holl bartneriaid
- 5.10.4 Mynegwyd pryderon ynghylch loteri côd post o ran y gefnogaeth sydd ar gael gan nad yw'r adnodd hwn ar gael ym mhob cymuned. Amlygodd GD fod hwn yn brosiect 'lleol' gyda chydlynwyr lleol; mae'n ymwneud yn fwy ag ymateb wedi'i deilwra i angen.
- 5.10.5 Esboniodd SC fod gan y model ym Mhen-y-bont ar Ogwr

wahaniaethau cynnil i'r model PDG ond mae'n dilyn y cyfeiriad cyffredinol a'r egwyddorion allweddol. Mae cydlynwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal cymorthfeydd gyda'r BI bob wythnos sy'n llwyddiannus iawn.

- 5.10.6 Cafwyd trafodaeth ynghylch yr ymrwymiad i ddatblygu Mentrau Cymunedol Lleol (PDG/CCLI) ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin ac edrych ar gynllun i gyflwyno PDG/CCLI (amseru/adnoddau).
- 5.10.7 Nododd SP y byddai'n briodol cynnal trafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch y CGI fel ymrwymiad tymor hwy yn hytrach na dyraniadau blynyddol.
- 5.11 **Nododd y bwrdd gynnwys yr Adroddiad Gwerthuso Ffurfiannol am Fentrau Cymunedol Lleol ym Mae'r Gorllewin a luniwyd gan Brifysgol Abertawe. Cytunodd y bwrdd hefyd y dylid llunio cynllun i nodi'r adnoddau a'r amserlen ar gyfer y posibilrwydd o gyflwyno PDG/CCL yn llawn ar draws y rhanbarth.**
- 5.12 Diolchodd y cadeirydd i GD ac SR am y gwaith a wnaed ac am gyflwyniad gwyb. *Gadawodd GD ac SR y cyfarfod*
Ymunodd HDa â'r cyfarfod

6 Adborth o Gyfarfodydd Panel Rhanbarthol y Dinasyddion

- 6.1 Rhoddodd RW y diweddaraf o gyfarfod mis Chwefror
 - 6.1.1 Mae presenoldeb yn y cyfarfodydd yn tyfu
 - 6.1.2 Derbyniwyd sylwadau ynghylch yr Asesiad Poblogaeth a gwnaed newidiadau lle y bo'n briodol
 - 6.1.3 Mae teimladau cryf ymhlith aelodau y dylid cael mwy nag un cynrychiolydd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
 - 6.1.4 Cytunwyd i gwrdd cyn pob cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn trafod yr agenda a chodi unrhyw bryderon/faterion a darparu'r cyfle i roi eu barn fel llais y rhanddeiliaid.
- 6.2 Cadarnhaodd RS y caniateir dirprwyon os rhoddir hysbysiad ymlaen llaw.
- 6.3 Cytunwyd y dylid enwebu dirprwy i fynychu cyfarfodydd pan na fydd RW yn gallu bod yno oherwydd ymrwymadau eraill.
- 6.5 Rhoddodd SH y diweddaraf am gyfarfod mis Mawrth.
 - 6.5.1 Mae Panel y Dinasyddion yn sefydlu is-grŵp i ystyried blaenraglen waith
 - 6.5.2 Oherwydd nad yw cyfarfodydd y cyngor/Cabinet wedi'u trefnu eto ar gyfer y dyfodol, ni fu'n bosib trefnu cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer y dyfodol; mae hyn wedi cael sgîl-ffaith ac ni ellir trefnu cyfarfodydd Panel Rhanbarthol y Dinasyddion ymlaen llaw am nad yw'r dyddiadau'n hysbys, ac mae hyn yn achosi rhwystredigaeth ymhlith aelodau Panel y Dinasyddion.
- 6.6 Cadarnhaodd SH fod Joanne Abbott-Davies hefyd yn mynychu Panel Rhanbarthol y Dinasyddion, gan sicrhau bod cyswllt â BI

Enwebu dirprwy gynrychiolydd ar gyfer y BPRh

- 6.7 PABM, sydd wedi'i brisio gan y panel.
Cytunwyd i ystyried y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol yn gyhoeddus, yn dilyn trafodaeth ar dryloywder; bydd swyddogion yn ystyried y dulliau o gynnal cyfarfod yn gyhoeddus i'r BPRh eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf.

**Cyfarfodydd
cyhoeddus i'w
hychwanegu at yr
agenda nesaf i'w
trafod**

7 Bwrdd Contractio a Chaffael Bae'r Gorllewin

- 7.1 Rhoddodd DH y diweddaraf i'r bwrdd am gynnydd a'r achos busnes presennol
- 7.2 Dyma fanteision disgwylidig y prosiect ers 2014 ac wrth symud ymlaen i 2017:
- 7.2.1 Gwasanaethau o ansawdd gwell (awdurdod lleol ac ieuchyd) i oedolion diamddiffyn sy'n mynd i'r afael â'r goblygiadau ar gyfer comisiynwyr Adolygiad Winterbourne.
- 7.2.2 Canlyniadau cliriach a gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth
- 7.2.3 Targed arbedion gwerth £1.3 miliwn ar draws y rhanbarth ar gyfer 2014/16, a gyflawnwyd erbyn mis Mawrth 2016
- 7.2.4 Targed arbedion gwerth £1 filiwn ar draws y rhanbarth ar gyfer 2016/17, sydd ar y trywydd iawn i'w gyflawni
- 7.2.5 Gwell gwerth am arian i awdurdodau lleol a gwasanaethau ieuchyd
- 7.2.6 Datblygiad marchnad gadarn sy'n gallu bodloni anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol.
- 7.3 Dywedodd DH fod Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys manylion straeon digidol/astudiaethau achos a'r gwaith sydd wedi'i wneud, yr heriau a wynebir etc.
- 7.4 Mae meysydd gwaith yn cynnwys Asesiadau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau Cyflawn, Gwasanaeth Broceru Rhanbarthol Iechyd Meddwl ar gyfer Lleoliadau Preswyl, datblygu Gwasanaeth Broceru Rhanbarthol newydd ar gyfer Anableddau Dysgu i ehangu'r Gwasanaeth Broceru Iechyd Meddwl, adolygu'r gwersi a ddysgwyd o gam cyntaf y prosiect a'r cynllun peilot - Asesiadau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau i Blant ag Anghenion Cymhleth mewn Gwasanaethau Gofal a Reolir.
- 7.5 Canmolodd DH y gwaith a wnaed hyd yn hyn, gydag arweinyddiaeth gan Jackie Davies, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a mewnbwn gan y BI a thri ALL, yn ogystal â thîm Swyddfa Rhaglen BGn.
- 7.6 Cytunwyd ar yr argymhellion yn yr adroddiad.
- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad, gan gynnwys y buddion a wireddwyd a'r egwyddorion rheoli perfformiad sydd wedi'u gwreiddio yn y Prosiect Contractio a Chaffael, gan gynnwys yr astudiaethau achos sy'n darparu tystiolaeth o ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.**
- (2) Derbyn adroddiad pellach ynghylch y Rhaglen Comisiynu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig**

Genedlaethol (IHSCCP) yn ei gyfarfod nesaf (ar yr amod bod gwybodaeth ar gael o'r prosiect cenedlaethol).

8 Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr PABM

Ymunodd Hilary Dover (HDo) â'r cyfarfod

- 8.1 Esboniodd HD y sefydlwyd y Bwrdd Gofalwyr yn 2012 ac mae wedi wynebu cryn dipyn o newidiadau. Mae'r bwrdd yn cynnwys aelodau o'r BI, ALI, CLIC a chanolfannau gofalwyr lleol.
- 8.2 Cadarnhawyd SC yn Is-gadeirydd y bwrdd yn ddiweddar.
- 8.3 Esboniodd HD ddiben y Cynllun Trawsnewid a luniwyd gan Fwrdd Partneriaeth Gofalwyr PABM gyda mewnbwn gan sefydliadau partner a gofalwyr lleol:
- 8.3.1 Adeiladu ar y cynnydd a gafwyd o ganlyniad i'r Strategaeth Gwerthfawrogi Gofalwyr
- 8.3.2 Cynnal momentwm ymwybyddiaeth gofalwyr
- 8.3.3 Darparu fframwaith er mwyn i sefydliadau partner ymateb i ofalwyr o fewn cylch gwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) sydd wedi disodli deddfau Gofalwyr blaenorol a Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)
- 8.4 Dyma'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer gofalwyr:
- 8.4.1 Gall gofalwyr gael mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adeg iawn ac o'r lle iawn
- 8.4.2 Caiff gofalwyr eu hadnabod gan staff sy'n nodi eu hanghenion, yn rhoi'r wybodaeth briodol iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol
- 8.4.3 Caiff gofalwyr eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod eu taith drwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio arnynt neu ar y person maent yn gofalu amdano, a chânt gyfle i ymgynghori arnynt.
- 8.4.4 Mae pob gofalwr yn cael cynnig Asesiad Gofalwyr er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy.
- 8.4.5 Nodir gofalwyr ifanc a rhoddir yr wybodaeth, yr asesiad a'r gefnogaeth briodol iddynt
- 8.5 Dywedodd LJ fod y Cynllun Trawsnewid wedi'i ystyried yn dda ond trosglwyddwyd rhai awgrymiadau i HDo ar sut i wella ymhellach yr amgylchiadau i ofalwyr, yn enwedig ynghylch derbyn gwybodaeth mewn pryd.
- 8.6 Awgrymwyd y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn meddygfeydd yn ogystal â chaffis ac archfarchnadoedd lle mae gofalwyr yn fwy tebygol o ddod ar eu traws.
- 8.7 Croesawodd HDa y diweddaraf a gwaith y bwrdd a dywedodd y crybwyllwyd yn rhywle arall fod o leiaf ddau i dri gofalwr ym mhob ystafell ddosbarth mewn ysgolion, ac y dylid cynyddu ymwybyddiaeth yn fwy ynghylch hyn mewn ysgolion ar draws y rhanbarth. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o hyd mewn ysgolion ynghylch materion gofalwyr ifanc.
- 8.8 **Cytunwyd** i wneud ymrwymiad rhanbarthol i gynnig sesiynau

**Bwrdd Partneriaeth
Gofalwyr**

Bwrdd Partneriaeth

- cynyddu ymwybyddiaeth am faterion gofalwyr ifanc mewn ysgolion ym Mae'r Gorllewin. **Gofalwyr**
- 8.9 Nododd y bwrdd y cynnydd yng ngwaith Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr PABM a'i fwriad i fireinio'i fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

9 Adroddiad Blynyddol Bae'r Gorllewin 2016 – 2017

- 9.1 Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol ar ddechrau'r cyfarfod; Ymddiheurodd SH am hwyrni'r adroddiad ond oherwydd niferoedd staff, ni fu'n bosib casglu, coladu a chwblhau gwybodaeth yn gynt. Dywedodd SH hefyd fod achos wedi'i gyflwyno i swyddogion LIC i gyflwyno Adroddiadau Blynyddol ym mis Mai/Mehefin i ganiatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith o gasglu gwybodaeth yn y dyfodol.
- 9.2 Gofynnodd SH am unrhyw sylwadau neu adborth erbyn dydd Llun, 27 Mawrth fan bellaf gan fod angen anfon yr adroddiad at LIC erbyn 1 Ebrill. **Sylwadau/adborth i SH erbyn 27 Mawrth**
- 9.3 Aeth SH drwy gynnwys yr adroddiad yn fyr.
- 9.4 **Cytunodd** y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr adroddiad mewn egwyddor, yn amodol ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.
- 9.5 Gofynnodd HDa a ellid cyd-amseru'r adroddiad â'r adrodd statudol blynyddol y mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei lunio i osgoi dyblygu gwaith
- 9.6 Nododd AD fod yr adroddiad yn adlewyrchiad cadarnhaol o aeddfedrwydd cynyddol y bartneriaeth ar ran yr ALL, y BI a'r holl bartneriaid.
- 9.7 Rhoddodd y bwrdd ddiolch i Swyddfa Rhaglen BGN am lunio'r adroddiad.

10 Y Diweddaraf am Gyllid Bae'r Gorllewin

- 10.1 Rhoddodd SH y diweddaraf am gyllid, y ceir manylion amdano yn y pecyn agenda.

11 Adroddiad Cynnydd Bae'r Gorllewin

- 11.1 Rhoddodd SH y diweddaraf am waith Bae'r Gorllewin
- 11.2 Fel y gofynnwyd, lluniwyd Cynllun Gweithredu er mwyn adrodd yn gliriach ar ganlyniadau. Dywedodd SH nad oedd y cynllun gweithredu drafft wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Arweinyddiaeth na Thîm y Rhaglen ond y byddai'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfodydd ym mis Ebrill i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- 11.3 Rhagwelir y caiff yr Asesiad Poblogaeth ei gyflwyno i LIC ar 1 Ebrill, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Iechyd a'r tri chyngor.
- 11.4 Atgoffwyd y bwrdd am y Gweithdy Asesiad Poblogaeth "Craffu ar y Gorwel" a gynhelir ar 6 Ebrill yn Y Ganolfan, Baglan.
- 11.5 Dosbarthwyd Adroddiad Cynnydd Prosiect WCCIS yn y pecyn agenda er gwybodaeth a'r diweddaraf am gynnydd.

- | | | |
|------|---|--|
| 11.6 | Gofynnodd HDa a allai adroddiadau cynnydd yn y dyfodol gael eu graddio'n 'CAG' | Swyddfa Rhaglen BGN i raddio adroddiadau cynnydd yn y dyfodol yn Goch, Ambr neu Wyrdd |
| 11.7 | Gofynnwyd eto a allai CBS CNPT gyflwyno WCCIS yn gynt i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn y rhanbarth yn gallu cael mynediad i'r un system a'r un wybodaeth yn gynt na 2019. | NJ i gadarnhau a fyddai modd cyflwyno WCCIS yn CBS CNPT yn gynt |

12 UFA

- | | | |
|------|--|---|
| 12.1 | Mae AT wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r gorau i fod yn Arweinydd CBS CNPT. Mynegodd pawb gryn ddiolch am y gwaith a wnaed gan AT fel gwas cyhoeddus a gofynnwyd a ellid anfon llythyr o ddiolch ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal ag at y Cyng. John Rogers, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau i Oedolion, CBS CNPT. | SH i ddrafftio llythyr o ddiolch i AT a JR |
|------|--|---|

Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm